




ALMANAC MATHEMATEG BLWYDDYN 10

Enw:

ALMANAC







Mae almanac yn llyfryn sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol i gynnwys gwybodaeth am bwnc neu weithgaredd penodol.

O'r Arabaidd **الْمَنَاح** (al-manāk, "almanac, calendr").

















	Tudalen
Y Côd Cywiro	4
Y Pedwar Diben	6
Data	7
Y Waled Blastig	8
Y Llyfr Adolygu	9
Taith Ddysgu	10
Storifwrdd Blwyddyn 10	11
Rhestr Adolygu Arholiad Blwyddyn 10	12
Pecynnau Gwaith	13
Offer	28





Côd Cywiro Iaith

✓	Pwynt da a chywir	Defnydd o air Saesneg	
✓✓	Gwaith arbennig	Gair/geiriau ar goll	^
X	Pwynt anghywir	Angen dyfynodau	“ ”
 (+ anodi S)	Camsillafu	Angen/dim angen I	I / i
Fy  bag (+ anodi TR)	Camdreiglo	Angen prif lythyren	
// (+ anodi P)	Angen paragraff newydd	Gofal gyda'r gystrawen	
 (a/neu'r atalnod cywir)	Angen atalnodi	Angen acen	A (a/neu'r acen gywir)
?	Brawddeg ddim yn gwneud synnwyr		

Côd Cywiro Rhifedd


	Ateb cywir	Angen unedau yn yr ateb	
	Gwaith arbennig	Angen dangos mwy o'r dull	
	Dull cywir yn dilyn gwall	Angen defnyddio pren mesur	
	Gwall arall	Angen defnyddio cwmpas	
	Rhif wedi ei gylchu: Camgymeriad	Camddarllen	
	Yr un camgymeriad yn cael ei ailadrodd islaw	Angen dangos y dull talgrynnu	
	Gwaith ddim yn gwneud synnwyr	Angen symleiddio'r ateb	

Graffiau a Siartiau

	Angen teitl	Angen graddfa addas	
	Angen echelinau addas	Angen label ar yr echelin	

Y Pedwar Diben

Yn y gwersi mathemateg, dyma sut y byddwch yn datbygu eich gallu i arddangos y pedwar diben.





Canlyniadau Blwyddyn 9

Canran Prawf Rhannau o Rif	%
Canran Prawf Mesur Siapiau 2	%
Canran Prawf Datblygu Algebra 1	%
Canran Prawf Trin Data ac Ystadegaeth 3	%
Canran Arholiad Diwedd Blwyddyn 9	%
Prawf Cenedlaethol Gweithdrefnol	
Prawf Cenedlaethol Rhesymu	
Sgôr Safonedig Blwyddyn 9	

Adnoddau Blwyddyn 10

Pecynnau gwaith Cymraeg a Saesneg:
www.mathemateg.com, CiG, Blwyddyn 10.

Fersiynau Haen Sylfaenol a Haen Uwch ar gael.



Fideos adolygu ar YouTube:

www.youtube.com/user/adolygumathemateg



Adolygu Mathemateg
 @adolygumathemateg

Mae'r sianel yma ar gyfer dysgwyr sy'n astudio mathemateg yn yr ysgol. >

HOME VIDEOS PLAYLISTS COMMUNITY CHANNELS

Times Tables Rock Stars: www.ttrockstars.com

Enw defnyddiwr:

Cyfrinair:



Diagnostic Questions (cwisiau adolygu): www.diagnosticquestions.com

Enw defnyddiwr:

Cyfrinair:

Y Waled Blastig



Y Llyfr Coch

- Ar gychwyn bob gwers, ysgrifennwch “Gwaith Dosbarth”, y dyddiad a theitl addas ar gyfer y gwaith. Dylid tanlinellu bob un o’r rhain.
- Ni ddylid gadael tudalennau gwag yn y llyfr gwaith.
- Lluniwch ddiagramau efo pensil a, lle bo’n briodol, efo’r offer cywir, e.e. pren mesur, onglydd, cwmpas.
- Dangoswch eich gwaith cyfrifo yn llawn.
- Cofiwch gynnwys unedau perthnasol yn eich atebion, e.e. cm, £, ml.

Y Llyfr Adolygu

Hwn fydd sail eich gwaith adolygu ar gyfer eich arholiadau ym mlwyddyn 11.

- Llenwch o leiaf 4 tudalen yn eich llyfr adolygu ar gyfer bob pecyn gwaith.
- Defnyddiwch deitlau clir, syml ac effeithiol, e.e.


TRIGONOMETREG
Trigonometreg

- Gwnewch nodiadau ar beth sy'n bwysig ym mhob pennod o'r pecyn gwaith. Er enghraifft, dyma gychwyn set o nodiadau ar sut i ddewis sampl o boblogaeth:

samplu YN AML, NID YW'N BOSIB OFYN AM BARN POB UN
AELOD, OR BOBLOGAETH FELLY RYDYM YN
DEFNYDDIO SAMPL OR BOBLOGAETH AC YN CEISIO DOD I FARN AM Y
BOBLOGAETH GYFAN AR SAIL Y NYBODAETH AM Y SAMPL.
Rhaid gwneud yn siŵr fod y sampl yn ddigon, ac yn gynrychioliad o'r
boblogaeth. Ni fyddai holi 5 disgybl yn cynrychioli barn ysgol gyfan, na
chwacth holi dim ond y dysgwyr ym mlwyddyn 8.

- Defnyddiwch y llyfr i geisio
 - y cwestiynau sydd ar ddiwedd y fideos adolygu ar sianel YouTube yr adran;
 - y cwestiynau sydd ar wefan Diagnostic Questions;
 - y cwestiynau sydd yn y pecyn gwaith;
 - neu gwestiynau rydych chi eich hunain yn ysgrifennu.
- Byddwch yn cael defnyddio eich llyfr adolygu mewn rhai profion; holwch eich athro mathemateg am fwy o fanylion.

Taith Ddysgu



Blwyddyn 10

Mathemateg a Rhifedd



Cwestiynau Hanfodol:

- Pam fod hi'n bwysig gwirio dibynadwyedd data a deall y gall ystadegau gamarwain?
- Sut gallwn gyfrifo perimedr, arwynebedd a chyfaint siapiau cyffredin?
- Pam fod dysgu algebra yn eich paratoi i wneud swyddi cymhleth yn y dyfodol?

<p>[1] Trin Data ac Ystadegaeth 4</p> <p>5-7 wythnos</p>	<p>[2] Pwerau ac Israddau</p> <p>4-5 wythnos</p>	<p>[3] Mesur Siapiau 3</p> <p>4-5 wythnos</p>	<p>[4] Ffracsiynau, Canrannau a Degolion</p> <p>5-6 wythnos</p>	<p>[5] Datblygu Algebra 2</p> <p>5-6 wythnos</p>	<p>[6] Mesur Solidau</p> <p>3-5 wythnos</p>	<p>[7] Manwl Gywirdeb</p> <p>3-4 wythnos</p>
<p>Pam dysgu hyn?</p>	<p>Pam dysgu hyn?</p>	<p>Pam dysgu hyn?</p>	<p>Pam dysgu hyn?</p>	<p>Pam dysgu hyn?</p>	<p>Pam dysgu hyn?</p>	<p>Pam dysgu hyn?</p>
<p>Beth yw'r ffordd orau o gasglu tystiolaeth i ddarganfod yr ateb i gwestiwn pwysig?</p> <p>Nid yw'n bosib cael pawb mewn poblogaeth i ateb cwestiwn – felly sut ydym yn penderfynu pa sampl i'w holi?</p>	<p>Sut gallwn ysgrifennu'n effeithiol rhifau mawr iawn neu rifau bach iawn?</p> <p>Estynnwn ein dealltwriaeth o bwerau yn y pecyn yma, gan eu defnyddio i ysgrifennu rhifau yn y ffurf safonol; a phlotio graffiau megis $y = ax^2 + b$.</p>	<p>Sut gallwn fesur uchder coeden heb orfod dringo i dop y goeden?</p> <p>Mae trigonometreg yn cyflwyno ffordd o ddarganfod onglau neu ochrau coll mewn triongl ongl sgwâr, techneg sy'n ddefnyddiol tu hwnt.</p>	<p>Pam bod rhaid dysgu sut i gyfrifo efo rhifau?</p> <p>Gweithio'n fanwl gywir efo ffracsiynau, canrannau a degolion yw sylfaen mathemateg. Mae'n hanfodol i fyw bywyd llawn mewn byd sy'n llawn gwybodaeth rifol.</p>	<p>Pa sgiliau sydd eu hangen yn y swyddi sy'n talu orau?</p> <p>Mae'r gallu i dorri problem gymhleth i ddarnau llai, ac yna delio efo'r darnau llai, yn sgil werthfawr iawn – rhywbeth sy'n cael ei ymarfer yn y pecyn yma.</p>	<p>Faint o goffi sy'n ffitio i mewn i'r gwpan uchod?</p> <p>Cyfrifo <i>maint</i> pethau yw hanfod y pecyn yma: defnyddio fformiwla; delio efo siapiau cyflun, ac ymestyn Theorem Pythagoras i'r trydydd dimensiwn.</p>	<p>Pa mor fanwl y mae'n rhaid gweithgynhyrchu'r darnau i roced sy'n gadael y Ddaear?</p> <p>Mae pob mesuriad yn frasamcan, efo arffiniau uchaf ac isaf. Dysgw'n sut i gyfrifo efo'r arffiniau hyn yn y pecyn yma.</p>
<p>Profiadau dysgu</p>	<p>Profiadau dysgu</p>	<p>Profiadau dysgu</p>	<p>Profiadau dysgu</p>	<p>Profiadau dysgu</p>	<p>Profiadau dysgu</p>	<p>Profiadau dysgu</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cymharu cyfartaleddau. • Dylunio holiaduron. • Dulliau samplu. • Arddangos data efo polygonau amllder, diagramau blwch a blewyn a histogramau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolau indecsau. • Syrdiau. • Y ffurf safonol. • Plotio graffiau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio trigonometreg i gyfrifo ochrau neu onglau coll mewn trionglau ongl sgwâr. • Helaethu siapiau. • Siapiau cyfansawdd 2-D. 	<ul style="list-style-type: none"> • Meistroli technegau cyfrifo. • Degolion cylchol. • Trawsnewid rhifau. • Newidiadau cyfrannol effeithiol. • Techneg arholiad. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ffactorio mynegiadau algebraidd. • Datrys hafaliadau cydamserol yn algebraidd. • Newid testun syml. • Adnabod darnau algebra. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfaint ac arwynebedd arwyneb solidau cyffredin. • Solidau cyfansawdd. • Siapiau cyflun. • Theorem Pythagoras 3-D. 	<ul style="list-style-type: none"> • Talgrynnu rhif i nifer penodol o ffigurau ystyrllon. • Amcangyfrif atebion. • Arffiniau uchaf ac isaf. • Manwl gywirdeb priodol. • Mesurau cyfansawdd.



Rhestr Adolygu Ffug Arholiad Mathemateg Blwyddyn 10

Uned 1: Mathemateg Ariannol a
Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)

Offer: Byddwch angen *beiro, pensil, cyfrifiannell, onglydd, cwmpas a phren mesur.*



Blwyddyn 7

Croeso i Ysgol y Creuddyn:

Amserlen yr ysgol

Sylfaenol ag Uwch

Cyflwyno Canrannau:

Defnyddio Canrannau

Sylfaenol ag Uwch

Blwyddyn 8

Mesur Siapiau 1:

Solidau (cyfaint ciwboid)

Sylfaenol

Blwyddyn 9

Rhannau o Rif:

Cymarebau

Uwch

Mesur Siapiau 2:

Cylchedd ac Arwynebedd Cylch

Uwch

Gweithio efo Arian:

Arian Tramor

Sylfaenol ag Uwch

Adlog

Uwch

Biliau'r Cartref

Sylfaenol ag Uwch

Blwyddyn 10

Trin Data ac Ystadegaeth 4:

Holiaduron

Sylfaenol

Samplu

Uwch

Ffracsiynau, Canrannau a Degolion:

Cyfrifo (efo cyfrifiannell)

Sylfaenol ag Uwch

Newidiadau Cyfrannol Effeithiol

Uwch

Techneg Arholiad

Sylfaenol ag Uwch

Pecynnau Gwaith

Mae'r pecynnau'n cynnwys amryw o ymarferion, wedi'u labelu fel yma.

Sgîl

Ymarferion ar dopig newydd.

Defnyddio

Datrys problem neu ateb cwestiwn mewn cyd-destun.

Ymestyn

Cwestiwn anoddach.

Adolygu


Adolygu testun o becyn blaenorol.

Gwerthuso


Mae bocsys gwerthuso ar ddiwedd bob pennod er mwyn adolygu'r gwaith a gyflawnwyd.

Geirfa Allweddol	Cywiriadau	Rwyf yn hapus efo...	Rwyf angen adolygu...
Ysgrifennwch y termau mathemategol newydd neu bwysig o'r bennod.	Beth sydd angen i chi gofio wrth wneud y math yma o waith yn y dyfodol?	Ysgrifennwch y topigau y cafoch lwyddiant efo.	Ysgrifennwch y topigau rydych angen edrych arnynt eto.

Hyfedreddau Cwricwlwm i Gymru



Dealltwriaeth gysniadol



Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau



Cymhwysedd strategol



Rhesymu rhesymegol



Rhuglder

Trin Data ac Ystadegaeth 4



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Dewis y cyfartaledd mwyaf addas.
- Dylunio holiadur gan feirniadu cwestiynau.
- Gosod a phrofi rhagdybiaethau.
- Dewis sampl o boblogaeth.
- Llunio a dehongli polygonau amllder, diagramau blwch a blewyn a histogramau.



- Darllen a dadansoddi testunau (data) newydd.



- Data a meddwl cyfrifiadurol: Dadansoddi setiau data i brofi neu gefnogi ymchwiliad.

Cymraeg	English
Cymedr	Mean
Modd	Mode
Canolrif	Median
Amrediad	Range
Cyfartaledd	Average
Holiadur	Questionnaire
Beirniadaeth	Criticism
Rhagdybiaeth	Hypothesis
Sampl	Sample
Haenedig	Stratified
Haprif	Random Number
Dehongli	Interpret
Blwch a Blewyn	Box and Whisker
Cronnus	Cumulative
Dwysedd Amllder	Frequency Density
Chwartel	Quartile



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Pwerau ac Israddau



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Dysgu beth yw ystyr pwerau sy'n sero, sy'n negatiff neu sy'n ffracsiwn.
- Gweithio efo syrddiau fel $\sqrt{8}$.
- Ysgrifennu rhifau mawr iawn neu rifau bach iawn yn y ffurf safonol.
- Plotio graffiau cwadratig, ciwbig a chilyddol.
- Datrys hafaliadau gan ddefnyddio graffiau.



- Defnyddio terminoleg bynciol megis "anghymarebol" neu "swrd".



- Defnyddio gwefan *Desmos* i arbrofi efo plotio graffiau.

Cymraeg	English
Bôn	Base
Pŵer	Index
Mynegiad	Expression
Cilydd	Reciprocal
Enrhifo	Evaluate
Cymarebol	Rational
Anghymarebol	Irrational
Swrd	Surd
Ehangu	Expand
Ffurf Safonol	Standard Form
Cwadratig	Quadratic
Ciwbig	Cubic
Cilyddol	Reciprocal



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Mesur Siapiau 3



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Defnyddio trigonometreg i gyfrifo ochrau neu onglau coll mewn trianglau ongl sgwâr.
- Helaethu siapiau gan ddefnyddio ffactor graddfa positif, negatif a ffracsiynol.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau cyfansawdd.
- Cyfrifo hyd arc ac arwynebedd sector.



- Cip ddarllen neu lithr ddarllen i ddarganfod manylion pwysig mewn cwestiwn aml-gam.



- Storio datrysiadau trigonometreg ar gof cyfrifiannell.

Cymraeg	English
Cyferbyn	Opposite
Agos	Adjacent
Hypotenws	Hypotenuse
Ongl godiad	Angle of elevation
Ongl ostwng	Angle of depression
Helaethu	Enlarge
Ffactor graddfa	Scale factor
Canol helaethiad	Centre of enlargement
Cyfansawdd	Composite
Diamedr	Diameter
Radiws	Radius
Perimedr	Perimeter
Cylchedd	Circumference
Hyd arc	Arc length
Arwynebedd sector	Area of a sector



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

Canran yn y prawf:


	%
--	---



.....

.....


.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Ffracsiynau, Canrannau a Degolion



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Meistroli cyfrifo efo rhifau.
- Newid ffracsiynau i ddegolion.
- Newid degolion cylchol i ffracsiynau.
- Trawsnewid rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion.
- Newidiadau cyfrannol sy'n cael eu hailadrodd.
- Gwrthdroi canrannau.
- Techneg arholiad: Asesu cyfathrebu ysgrifenedig; cynlluniau marcio; amseru.



- Defnyddio'r dechneg "Swm, Eglurhad" i osod allan yr ateb i gwestiwn "asesu cyfathrebu ysgrifenedig" yn effeithiol.

Cymraeg	English
Ffracsiwn	Fraction
Canran	Percentage
Degolyn	Decimal
Degolyn Cylchol	Recurring Decimal
Cywerth	Equivalent
Terfynus	Terminating
Ailadrodd	Repeat
Trawsnewid	Convert
Esgynnol	Ascending
Disgynnol	Descending
Cyfrannol	Proportional
Adlog	Compound Interest
Gwrthdroi	Reverse
Asesu Cyfathrebu Ysgrifenedig	Assessing Written Communication
Cynllun Marcio	Mark Scheme



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

Canran yn y prawf:


	%
--	---



.....

.....


.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Datblygu Algebra 2



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Ffactorio mynegiadau algebraidd syml fel $6x + 8$.
- Ffactorio mynegiadau cwadratig o'r ffurf $x^2 + ax + b$ neu $ax^2 + bx + c$.
- Y gwahaniaeth rhwng dau sgwâr.
- Datrys hafaliadau cwadratig trwy ffactorio.
- Llunio a datrys pâr o hafaliadau cydamserol.
- Newid testun ble mae'r testun yn ymddangos unwaith yn unig.
- Adnabod mynegiadau, hafaliadau, fformiwlâu ac unfathiannau.
- Profi unfathiannau.

Cymraeg	English
Ehangu	Expand
Ffactorio	Factorise
Ffactor cyffredin mwyaf	Highest common factor
Cwadratig	Quadratic
Datrys	Solve
Gwahaniaeth rhwng dau sgwâr	The difference of two squares
Hafaliadau Cydamserol	Simultaneous Equations
Cyfernod	Coefficient
Newidyn	Variable
Newid Testun	Changing the Subject
Mynegiad	Expression
Hafaliad	Equation
Fformiwlâ	Formula
Unfathiant	Identity



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

Canran yn y prawf:


	%
--	---



.....

.....

.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Mesur Solidau



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Cyfaint ac arwynebedd arwyneb ciwboid.
- Cyfaint prism.
- Cyfaint ac arwynebedd arwyneb silindr.
- Cyfaint pyramid.
- Arwynebedd arwyneb côn.
- Cyfaint ac arwynebedd arwyneb sffêr.
- Cyfaint ffrwstwm côn.
- Cyfaint solidau cyfansawdd.
- Gweithio efo siapiau cyflun.
- Ffactor graddfa hyd, arwynebedd a chyfaint.
- Theorem Pythagoras 3-D.



- Defnyddio gwefan *Polypad* i weithio efo rhwydi solidau.

Cymraeg	English
Cyfaint	Volume
Arwynebedd Arwyneb	Surface Area
Trawstoriad	Cross-section
Apig	Apex
Hyd Goleddol	Slant Height
Crwm	Curved
Sffêr	Sphere
Hemisffer	Hemisphere
Cyfansawdd	Composite
Ffrwstwm	Frustum
Siapiau cyflun	Similar shapes
Ffactor graddfa	Scale factor
Croeslin	Diagonal



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Manwl Gywirdeb



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrlon.
- Amcangyfrif yr ateb i gyfrifiadau.
- Arffiniau uchaf ac isaf mesuriadau.
- Cyfrifo atebion i fanwl gywirdeb priodol.
- Mesurau cyfansawdd:
 - Pellter, amser a chyflymder.
 - Poblogaeth, arwynebedd a dwysedd poblogaeth.
 - Màs, cyfaint a dwysedd.
 - Mesurau cyfansawdd eraill, yn cynnwys tanwydd.

Cymraeg	English
Ffigurau Ystyrlon	Significant Figures
Talgrynnu	Round Off
Digid	Digit
Amcangyfrif	Estimate
Arffin	Bound
Terfannau Cywirdeb	Accuracy Limit
Manwl Gywirdeb Priodol	Appropriate Degree of Accuracy
Cyfansawdd	Composite
Cyflymder	Speed
Dwysedd Poblogaeth	Population Density
Dwysedd	Density
Treuliant Tanwydd	Fuel Consumption



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

OFFER

ar gyfer gwersi Mathemateg (pris yn siop yr adran)

1. Beiro (10c)

- Du, Coch a Glas
- Dim defnyddio hylif cywiro



2. Pensil HB (10c)

- Ar gyfer llunio diagramau




3. Pren mesur (10c / 15c)


- Gwell cael un 30cm
- Mesur mewn cm a modfeddi



4. Chwalwr (10c)



5. Onglydd (20c)



6. Cwmpas (30c)

- Cofiwch dynhau'r sgrif!



7. Cyfrifiannell Wyddonol (£10)

- Casio fx-83GT CW



8. Sgwaryn

9. Miniwr (10c / 20c)

10. Amlygwyr (Highlighter)

